Prosiect STEM

# Nodweddion ci tywys



**Prosiect STEM**

# Ymchwil

Guide Dogs yw'r bridiwr cŵn mwyaf yn y byd. Ar hyn o bryd ceir 5000 o bartneriaethau cŵn tywys gwaith yn y DU, ac rydym wedi gwneud addewid i bob un o'r 5000 o'r perchnogion cŵn tywys hynny, os ydyn nhw am, eu bod yn gallu cael ci tywys am oes, a bydd yna bobl newydd a fydd ag angen ci hefyd. Yn 2017, gadawodd 1356 o gŵn bach o 190 torllwyth ein canolfan fridio i ddechrau ar eu taith o ddyfod yn gŵn tywys. Yn wahanol i fridwyr cŵn anwes, nid ydym yn bridio yn ôl golwg ond rydym yn defnyddio ein gwybodaeth am linellau gwaed, etifeddiaeth a nodweddion ac ymddygiad brid i gynhyrchu cŵn bach sydd fwyaf tebygol o ddyfod yn gŵn ywys llwyddiannus, hapus ac iach. Mae cod moeseg gennym sy'n amlinellu ein safbwynt moesegol mewn perthynas ag arferion bridio ac yn dangos ein hymrwymiad at Iechyd a Lles ein holl gŵn. **Link to our code of ethics page.** Rhaid i gi tywys fod yn hyderus, cyfeillgar a pharod i ddysgu yn ogystal â gwneud ei benderfyniadau ei hun wrth ddelio â sefyllfaoedd anodd ac addasu i newidiadau.

Mewn dros 80 o flynyddoedd o weithio gyda chŵn tywys rydym wedi darganfod fod bridiau penodol yn gwneud gwell cŵn tywys nac eraill, felly rydym wedi canolbwyntio ein rhaglen fridio o gwmpas y bridiau hynny.




**50%** **Adargi Euraidd cymysg** (wedi croesi â Labrador neu Gi Bugail Almaenig)

**34%** **Labrador**

**10%** **Adargi Euraidd**

**4%** **Ci Bugail Almaenig**

**2%** **Arall** Pwdl neu retriever cot cyrliog cymysg

Croesi Labradôr/Adargi yw'r gymysgedd o gŵn mwyaf llwyddiannus ar gyfer cŵn tywys, gan fodloni'r cydbwysedd o iechyd, anian ac ymddygiad sy'n bodloni safon cŵn tywys.

## Mae'r tabl isod yn manylu ar safonau Cŵn Tywys:

<table>
<tr><th>Tasg</th><th>Safon</th></tr>
<tr><td>Cymdeithasol</td><td>Ymddygiad toiled derbyniol y gall perchennog ci tywys ei reoli'n rhesymol.</td></tr>
<tr><td></td><td>Anian tawel ac ymlacedig ym mhob sefyllfa gymdeithasol.<br>• Ddim yn ceisio cael sylw<br>• Ddim yn fywiog/neidio wrth gyfarch<br>• Ddim yn chwilio am sborion/dwyn<br>• Ddim yn llafar/isafswm llais<br>• Dim cega<br>• Glân, tawel a ddim yn ddistrywiol dros nos neu wrth gael ei adael am hyd at 3 awr heb ei gaethiwo mewn amgylchedd cartref.<br>Sefyllfaoedd gwaith<br>Tawel ac ymlacedig gyda'r person sy'n ei drin.</td></tr>
<tr><td></td><td>Sefydlu ymateb i alwad – dod yn ôl wrth alw neu chwibanu, mewn modd wedi ei reoli</td></tr>
<tr><td></td><td>Ufuddhau ar ac oddi ar y tennyn (eisteddiad cadarn, sefyll, sawdl, cerdded wrth y sawdl a gorwedd/aros, amrywio cyflymder) yn cynnwys ufudd-dod 'fan' ac mewn amrywiaeth o ardaloedd</td></tr>
<tr><td>Gweithio ag offer</td><td>Derbyn yr harnais mewn ffordd ymlacedig/hyderus<br>• Darn corff<br>• Dolen<br>• Dolen ar y cefn<br>Derbyn yr harnais yn hyderus o'r dechrau</td></tr>
<tr><td></td><td>Ymlacedig ar bob math o gerbyd.<br>• Ci yn setlo'n gyflym cyn gynted ag y bo ar y cerbyd.<br>• Ymlacedig wrth deithio<br>• Cadarnhaol wrth fynd ar/wrth ddod oddi ar drafnidiaeth (ddim yn frysiog)</td></tr>
<tr><td>Sgiliau arwain</td><td>Gwaith cwrb<br>1. Dynesu<br>• Dynesiad cadarnhaol at y cwrb, gyda'r gefnogaeth leiaf gan y person sy'n ei drin<br>2. Stopio<br>• Eisteddiad syth / sefyll<br>• Stopio heb anogaeth oddi wrth y person sy'n ei drin<br>3. Dechrau cerdded eto.<br>• Dechrau cerdded eto mewn ffordd gadarn</td></tr>
</table>



Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (209617) ac yn yr Alban (SC038979). 9725 03/18

| | |
|---|---|
| | **Llinell syth**<br>• Safle yng nghanol y palmant, gyda'r lleiaf o ddylanwad gan y person sy'n ei drin<br>• Symud o safle yng nghanol y palmant i osgoi rhwystr, ond dychwelyd gyda'r lleiaf o gefnogaeth<br>• Safle yng nghanol y palmant boed y ffordd ar y chwith neu'r dde<br>• Croesi'r ffordd yn syth ac ymateb i orchymyn syth |
| | **Cyflymder a thensiwn cyson**<br>• Ci yn cadw at y cyflymder drwy gydol y dro<br>• Ymateb i reoli cyflymder oddi fewn i amodau amrywiol, gwerthfawrogi cyflymder mewn amodau prysur, ond adennill cyflymder normal pan fo'n glir<br>• Digon o densiwn arwain heb dynnu. Cyson drwy gydol y daith<br>• Ymateb i orchymyn llais i arafu ac "Hup up" |
| | **Canolbwyntio**<br>• Gallu adennill a chynnal tasg canolbwyntio ar arwain yn rhwydd wrth gerdded heibio pethau'n hawdd er eu bod yn tynnu sylw neu'n wrthrychau drwgdybus.<br>• Dylai fod yn adfer y canolbwyntio ar ôl cael tynnu ei sylw a hynny'n gyflym ac â'r gefnogaeth leiaf |
| | **Ymateb i orchmynion cyfeiriadol**<br>• Ymatebion cadarnhaol i'r holl orchmynion, â'r lleiaf o gefnogaeth<br>• Ymateb i gael ei reoli/gallu ei ddilyn yn hawdd |

**Tasg**

## Ci Tywys Robot

- Pa elfennau o safonau cŵn tywys fyddai'r rhai hawsaf i'w cymhwyso i robot? Pa un fyddai'r mwyaf anodd?
- Bydd angen i chi gymryd y safon hon i ystyriaeth pan fyddwch yn rhaglennu eich robot/ateb technegol i arwain.
- Rhowch gynnig ar raglennu robot neu ficro cyfrifiadur i berfformio'r sgiliau arwain sylfaenol a amlinellir yn y safonau arwain. A fyddai hyn yn ddigon da i arwain person â nam ar ei olwg yn ddiogel? Os na, beth arall sydd angen i'r robot allu ei wneud?



Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (209617) ac yn yr Alban (SC038979). 9725 03/18

Pam cŵn?

## Pam ydyn ni'n defnyddio cŵn i dywys?

Yn wahanol i anifeiliaid eraill, mae gwir barodrwydd gan gŵn i blesio a gweithio'n galed â'r person sy'n eu trin. Gall pobl sy'n trin adeiladu perthynas gref iawn gyda'u ci, yn wahanol i anifeiliaid fel cathod sydd yn llawer mwy annibynnol a heb yr un bond agos â'u perchnogion. **A link to the video "Guide Mogs".** Mae gan gŵn hefyd y lefel iawn o fentergarwch a deallusrwydd yn ogystal â phriodoleddau fel hyder, dibynadwyedd a chadernid i gyflawni'r swyddogaeth o dywys person. Ymhellach, mae maint a thaldra ci, yn fwy ymarferol i dywys person.

**Mae'r bond rhwng ci a dyn yn arwain at berthynas waith a chymdeithasol gref. Mae'n bwysig ffurfio bond gyda chi sy'n diwallu ei anghenion.**

  - Ymlyniad
  - Sicrwydd
  - Ysgogiad
  - Cysondeb

- Cymorth i ymlacio, hyder, rhagweld ac felly lleihau lefelau stres
- Cymorth gyda a chynnal sylwgarwch a chanolbwyntio
- Hwyluso datblygiad ymatebion ufudd-dod a dysgu yn gyffredinol
- Cynyddu parodrwydd, cydweithrediad ac ysgogiad
- Cymorth at gyflawni nodau mynd am dro y tro cyntaf a'r troeon cynnar
- Galluogi'r ci i ymdopi'n well â gofynion sydd ynghlwm wrth waith cŵn tywys e.e. cymryd cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau
- Helpu'r ci i ymdopi ag unrhyw adborth negyddol a ellir ei roi

Dyma pam fo'n hyfforddwyr yn gweithio'n galed i greu bond gyda'r cŵn maen nhw'n eu hyfforddi – mae er budd y cŵn ac yn ei wneud yn haws eu hyfforddi ac yn golygu y byddant yn weithwyr hyderus yn y dyfodol.



Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (209617) ac yn yr Alban (SC038979). 9725 03/18

Tasg

# Sut mae cŵn yn dysgu?

Cyflawnwch eich ymchwil eich hun i mewn i sut mae cŵn yn dysgu oddi wrth bobl drwy gyflyru. Ymhlith y geiriau a'r cymalau allweddol mae '**cyflyru ymddygiadol**', '**atgyfnerthu cadarnhaol**', '**hyfforddi clicer**'. Mae cŵn yn ymateb orau i '**gyflyru clasurol**' a '**chyflyru gweithredol**'.

Mae Guide Dogs yn defnyddio **dulliau hyfforddi cadarnhaol** yn unig drwy ganmoliaeth, hyfforddiant clicer a gwobr fel atgyfnerthiant. Mae rhai cŵn yn hoffi canmoliaeth fel gwobr, mae eraill yn cael trît bach neu sesiynau chwarae gyda'u teganau. Mae cysylltiadau cadarnhaol yn creu bond cryf rhwng ci a hyfforddwr ac yn golygu fod ci yn fwy tebygol o ymddwyn yn y modd rydych am iddo wneud dro ar ôl tro gan ei fod wedi dysgu fod pethau da'n digwydd pan fydd yn ufuddhau.

# Cŵn gwaith

**Cafodd cŵn eu defnyddio ar hyd y canrifoedd fel anifeiliaid gwaith o gŵn defaid ar fferm, cŵn sled mewn llefydd fel Alasga a Sweden i gŵn gwarchod ledled y byd.**

Fodd bynnag, dros y ganrif ddiwethaf, mae math newydd o gi gennym – ci cymorth. Rydym yn gweithio'n agos at ein cŵn cymorth ac yn aml os nad yw ci yn addas i fod yn gi tywys, yna gall fod yn addas ar gyfer elusen cŵn cymorth arall fel:

- Partneriaid Canine partners
- Cŵn i'r Anabl / Dogs for the Disabled
- Cŵn Clywed i'r Byddar / Hearing Dogs for Deaf People
- Cŵn Canfod Meddygol / Medical Detection Dogs

Gallan nhw hefyd fod yn fwy addas ar gyfer gweithio fel ci arogli i'r Heddlu neu gi tollau tramor a chartref.

Mae'r holl sefydliadau hyn yn chwilio am fath arbennig o gi, bob un â'i briodoledd gwahanol i siwtio eu cleientiaid. Er enghraifft, ni all yr amgylchedd o gwmpas ci tywys dynnu ei sylw, fodd bynnag, mae'n bosibl y gall fynd rhagddo i fod yn gi arogli gwych gyda'r heddlu pan fyddai bod yn ymwybodol o'i amgylchedd yn rinwedd fanteisiol.

# Cwestiynau

- Pam ydyn ni'n defnyddio cŵn yn hytrach nag anifeiliaid eraill i dywys pobl â nam ar y golwg?
- Beth sy'n gwneud cŵn yn haws eu hyfforddi?
- Pam yw e'n bwysig fod hyfforddwyr a pherchnogion yn ffurfio bond gyda'u cŵn?
- Beth sy'n digwydd pan nad yw'r cŵn rydym yn eu hyfforddi yn addas ar gyfer tywys?

**www.guidedogs.org.uk**